Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 8 Medi 2017 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| V M Evans | P Lloyd | H M Morris |
| C L Philpott | B J Rowlands | L G Thomas |
| L V Walton | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lynda Anthony | Swyddog Adrannol, Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch |
| Aled Gruffydd | Lawyer |
| Yvonne Lewis | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, J P Curtice, P Downing a/ac S J Gallagher

---

## 37 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 38 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 11 Awst 2017 yn gofnod cywir.

## 39 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad mewn perthynas ag Adran 165 a 167 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Nododd yr aelodau'r cefndir, gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ac arsylwadau'r swyddog.

**Penderfynwyd** cyhoeddi a chynnal rhestr o gerbydau dynodedig yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 40 Ymateb i ddogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru - Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yng Nghymru.

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad a oedd yn manylu ar ddogfen ymgynghori gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 12 Mehefin 2017 a oedd yn ceisio barn ar fframwaith er mwyn trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat a gynhigir gan Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

Nododd yr aelodau'r crynodeb gweithredol, yr ymgynghoriad a'r ymateb i'w hystyried.

**Penderfynwyd** cyflwyno'r ymateb y manylwyd arno yn Atodiad B yr adroddiad i Lywodraeth Cymru i'w hystyried.

## 41 Cynnig i ddiwygio Amod 23 Cerbyd Hurio Preifat Cyfyngedig.

Cyflwynodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch adroddiad er mwyn ystyried diwygio'r amod presennol sy'n nodi lle dylai'r drwydded gael ei harddangos yn y cerbyd.

Nododd yr aelodau'r amod, y cefndir a'r cynigion ar hyn o bryd.

**Penderfynwyd** diwygio amod 23 cerbyd hurio preifat cyfyngedig i nodi'r canlynol:

"Mae'n rhaid i rif plât a sticeri'r cerbyd gael eu gosod yn ddiogel ar y cerbyd.Mae'n rhaid i rif plât y cerbyd gael ei osod ar far taro neu gaead y gist/drws cefn rhwng llinell ganol ac i ochr dde'r cerbyd. Mae'n rhaid i'r sticeri gael eu gosod ar ddrysau blaen yr ochr i mewn ac ochr dde'r cerbyd. Mae'n rhaid i'r plât a'r sticeri fod yn gwbl weladwy ar bob adeg. Mae'n rhaid dychwelyd plât y cerbyd i'r cyngor pan fydd y drwydded yn dod i ben."

## 42 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

**43 Deddf Llywodraeth Cymru (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Gweithredwr Hurio Preifat - UBL.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais UBL am Drwydded Gweithredwyr Hurio Preifat.

Esboniodd UBL amgylchiadau'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau mewn perthynas â'r mater.

**Penderfynwyd gwrthod** cais UBL.

<u>**Rheswm dros y Penderfyniad**</u>

Nid oedd y pwyllgor yn credu bod UBL yn berson addas a phriodol oherwydd anallu UBL i gydymffurfio ag Amod 22.

**44 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - II.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais II am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat.

Esboniodd II amgylchiadau'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau mewn perthynas â'r mater.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo trwydded II o dan Adrannau 51 a 59 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 tan 10 Rhagfyr 2017; a
2) chymeradwyo ffi arfaethedig o £87.00 am gyfnod o 3 mis am y drwydded yrru hon; ac
3) ychwanegu'r ffi am y drwydded 3 mis i'r tabl o ffioedd ym mharagraff 8 yr adroddiad.

**45 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Tref 1847 - Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am Drwydded Cerbyd Hacni a Gyrrwr Hurio Preifat - MHIF.**

Dywedodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch nad oedd MHIF yn bresennol ar gyfer y cyfarfod ac nid oedd wedi darparu unrhyw reswm dros yr absenoldeb.

Darparodd yr aelodau gyngor.

**Penderfynwyd** gohirio'r mater tan y **cyfarfod** nesaf.

**46 Deddf Cydraddoldeb 2010 - Teithwyr mewn Cadeiriau Olwyn - Cais am Dystysgrif Eithrio - MAC.**

Manylodd y Swyddog Adrannol - Trwyddedu, bwyd a Diogelwch ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas â chais MAC am Dystysgrif Eithrio.

Esboniodd MAC amgylchiadau'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau mewn perthynas â'r mater.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais MAC am Dystysgrif Eithrio tan 12 Gorffennaf 2018.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.15 am

**Cadeirydd**